Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 640 (Cy. 146)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Adeiladau Rhestredig (Gwaith Brys) (Cyfradd Llog ar Dreuliau) (Cymru) 2017

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 54 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990") yn galluogi awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru i wneud gwaith yr ymddengys iddynt ei fod yn angenrheidiol ar frys er mwyn diogelu adeiladau rhestredig.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r gyfradd llog ar dreuliau y caniateir i awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru eu hadennill o dan adran 55 o Ddeddf 1990 mewn perthynas â gwaith o'r fath.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 640 (Cy. 146)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Adeiladau Rhestredig (Gwaith Brys) (Cyfradd Llog ar Dreuliau) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mai 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *8 Mai 2017* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mai 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**1**), a'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 93 o'r Ddeddf honno ac sy'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Adeiladau Rhestredig (Gwaith Brys) (Cyfradd Llog ar Dreuliau) (Cymru) 2017 a daw i rym ar 31 Mai 2017.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Adennill llog ar dreuliau

**2.**—(1) Y gyfradd llog ar dreuliau y caniateir i awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru eu hadennill o dan adran 55(5B) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau

(**1**) 1990 p. 9; diwygiwyd adran 55 gan adran 30(6) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (dccc 4). Ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yw 2% y flwyddyn yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "cyfradd sylfaenol Banc Lloegr" ("*Bank of England base rate*") ar unrhyw ddiwrnod penodol yw—

(a) ac eithrio pan fo is-baragraff (b) yn gymwys, y gyfradd ddiweddaraf a gyhoeddir mewn cyfarfod o Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr a gynhelir cyn y diwrnod hwnnw fel y gyfradd fasnachu swyddogol, sef y gyfradd y mae'r Banc yn fodlon ei defnyddio mewn trafodiadau i ddarparu hylifedd byrdymor yn y marchnadoedd arian; neu

(b) os yw gorchymyn o dan adran 19 (pwerau wrth gefn) o Ddeddf Banc Lloegr 1998(**1**) mewn grym, unrhyw gyfradd gyfwerth a bennir gan y Trysorlys o dan yr adran honno.

*Ken Skates*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r
Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

4 Mai 2017

(**1**) 1998 p. 11.